



# Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan

## Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

Mawrth 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn  
Saesneg. This document is also available in  
English.

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol .....	3
<b>1. Cynflwyniad .....</b>	<b>4</b>
1.1 Cyd-destun y Prosiect.....	4
1.2 Diben yr Adroddiad hwn .....	4
<b>2. Ymgysylltu .....</b>	<b>5</b>
2.1 Strategaeth Ymgysylltu .....	5
2.2 Hwyluso Adborth.....	5
2.2.1 Arolwg .....	5
2.2.2 Y Tu Allan i'r Arolwg .....	6
<b>3. Adborth .....</b>	<b>7</b>
3.1 Trosolwg .....	7
3.2 Cyfyngiadau.....	7
3.3 Methodoleg .....	7
3.3.1 Ymatebion i'r Arolwg .....	7
3.3.2 Ymatebion y Tu Allan i'r Arolwg .....	7
3.4 Ymatebion Meintiol ac Ansoddol.....	8
3.4.1 Cwestiwn Un .....	8
3.4.2 Cwestiwn Dau .....	9
3.4.3 Cwestiwn Tri.....	9
3.4.4 Cwestiwn Pedwar - Rhan A.....	10
3.4.5 Cwestiwn Pedwar – Rhan B.....	11
3.4.6 Cwestiwn Pedwar – Rhan C.....	11
3.4.7 Cwestiwn Pedwar – Rhan Ch.....	14
3.4.8 Cwestiwn Pedwar – Rhan E.....	16
3.4.9 Cwestiwn Pump .....	16
3.4.10 Cwestiwn Saith .....	19
3.4.11 Cwestiwn Wyth – Rhan A.....	19
3.4.12 Cwestiwn Wyth – Rhan B.....	20
3.4.13 Cwestiwn Naw .....	20

3.4.14	Cwestiwn A .....	21
3.4.15	Cwestiwn B .....	21
3.4.16	Cwestiwn C .....	21
3.5	Ymatebion y Tu Allan i'r Arolwg .....	22
<b>4.</b>	<b>Crynodeb .....</b>	<b>23</b>
4.1	Cyfleoedd Allweddol .....	23
4.2	Materion Allweddol .....	24
<b>5.</b>	<b>Y camau nesaf .....</b>	<b>25</b>

# Crynodeb Gweithredol

---

Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd yng Nghymru ac wedi ymrwymo i gryfhau uchelgeisiau hinsawdd Cymru i sero-net erbyn 2050. Mae gan y sector trafnidiaeth, fel un o'r cyfranwyr mwyaf at allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, ran sylweddol i'w chwarae.

Datblygwyd y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cymru a drafft sy'n destun ymgynghori. Y strategaeth yw'r cam cyntaf i Gymru gymryd camau targed i fodloni gofynion unigryw gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn nodi'r cyfleusterau gwefru cerbydau trydan presennol yng Nghymru, anghenion gwefru ar gyfer y degawd nesaf a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfnod ymgynghori 12 wythnos o 2 Rhagfyr 2020 hyd at 24 Chwefror 2021. Rhoddodd yr ymgynghoriad gyfle i randdeiliaid gynnig adborth ar y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ddrafft. Sefydlodd Llywodraeth Cymru fan penodol ar y wefan i gyflwyno'r holl wybodaeth a oedd ar gael am y strategaeth mewn un lle, ar-lein.

Hwyluswyd adborth trwy holiadur ar-lein a sefydlwyd cyfeiriad e-bost penodol gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i randdeiliaid ddarparu sylwadau manwl ar y strategaeth.

Cyflwynodd tua 335 o bobl sylwadau gan ddefnyddio holiadur Llywodraeth Cymru, neu drwy ddulliau ar-lein eraill gan gynnwys e-bost.

Cododd unigolion a sefydliadau â buddiant faterion a chyfleoedd yn ymwneud â:

- 1) Lleoliadau cyfleus a hygyrch ar gyfer mannau gwefru;
- 2) Lleoliadau diogel ar gyfer mannau gwefru;
- 3) Lleoedd i fod yn hygyrch ac yn ystyriol o ddefnyddwyr;
- 4) Hyder i ddibynnu ar y seilwaith;
- 5) Integreiddio gwaith cynllunio a theithio;
- 6) Effaith gwefru cyflym ar oes batri'r car a phroffil perygl i ddiogelwch posibl;
- 7) Gwersi a ddysgwyd o gyflwyno band eang mewn ardaloedd gwledig i'r ddarpariaeth o wefrwyr a'r berthynas gyda'r sector preifat;
- 8) Y berthynas rhwng twristiaeth, defnydd o gerbydau trydan a natur dymhorol;
- 9) Gwrthdaro tybiedig rhwng annog mynychrwydd cerbydau trydan ar y ffyrdd a theithio amlfodd; a
- 10) Materion darparu mwy cymhleth fel atebolrwydd am ddifrod i fatris ceir a chydysyniadau landlordiaid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r adborth a grynhowyd yn yr adroddiad ymgynghori hwn i'w gynnwys yn y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan derfynol ac i lywio'r cynlluniau gweithredu parhaus.

# 1. Cynflwyniad

---

## 1.1 Cyd-destun y Prosiect

Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i gryfhau uchelgeisiau hinsawdd Cymru i sero-net erbyn 2050. Mae gan y sector trafnidiaeth, fel un o'r cyfranwyr mwyaf at allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru, ran sylweddol i'w chwarae.

Datblygwyd y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cymru er mwyn darparu cyfleusterau gwefru sy'n bodloni gofynion unigryw Cymru ac i gefnogi'r ymdrech i gael pobl i ddefnyddio cerbydau trydan. Ar hyn o bryd, mae gan Gymru un o'r lefelau is o berchnogaeth cerbydau trydan yn y Deyrnas Unedig. Mae'r strategaeth yn cyflwyno gweledigaeth ar gyfer gwefru yng Nghymru sy'n ceisio rhoi hyder i ddefnyddwyr yn y seilwaith gwefru cerbydau trydan. Mae'r strategaeth yn nodi manylion y ddarpariaeth wefru bresennol ar gyfer ceir a faniau ledled Cymru, y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer y degawd a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain.

Trwy'r dadansoddiad o ddata, ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid a gwaith ymchwil a wnaed yn y strategaeth, nodwyd pedair thema allweddol:

- Y ddarpariaeth wefru gyfan: cynyddu'r gwefru araf, cyflym a chwim sydd ar gael.
- Canlyniadau ansawdd: sicrhau gwefru sy'n darparu profiadau o ansawdd i ddefnyddwyr.
- Canlyniadau cynaliadwy: datblygu cynllunio traws-sector integredig ar gyfer ynni cynaliadwy a thrafnidiaeth i gynorthwyo datgarboneiddio.
- Buddion lleol: darparu seilwaith yn y lle iawn ar gyfer defnyddwyr, busnesau a nodi cyfleoedd gwerth i bobl yng Nghymru.

Ategir y strategaeth gan gynllun gweithredu a fydd yn cyflwyno'r fframwaith a'r dulliau ar gyfer darparu.

## 1.2 Diben yr Adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gweithgareddau ymgysylltu a'r canfyddiadau allweddol o'r ymgynghoriad, yn feintiol ac yn ansoddol. Mae'r canfyddiadau wedi eu cynnwys yn y strategaeth ac yn cael eu defnyddio i hysbysu gwaith cynllunio gweithredol. Mae strwythur yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Pennod 2 – Ymgysylltu
- Pennod 3 – Adborth
- Pennod 4 – Crynodeb
- Pennod 5 – Y camau nesaf

## 2. Ymgysylltu

---

### 2.1 Strategaeth Ymgysylltu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddrafft o'r Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan ar gyfer Cymru ar y wefan. Sefydlodd Llywodraeth Cymru adran benodol, <https://llyw.cymru/strategaeth-gwefru-cerbydau-trydan>, i gyflwyno'r holl wybodaeth sydd ar gael mewn un lle, ar-lein.

Roedd y wefan yn galluogi partion â buddiant i weld y ddogfen ymgynghori ddrafft a chyflwyno adborth ar-lein.

Ategwyd y ddogfen ymgynghori gan holiadur ar-lein ar gyfer adborth yn cynnwys 17 cwestiwn o dan wyth thema. Roedd y cwestiynau naill ai'n amlddewis a/neu yn benagored gyda chyfle i gynnwys sylwadau manwl. Roedd yr holiadur yn agored ar gyfer ymatebion o 2 Rhagfyr 2020 hyd at 24 Chwefror 2021.

Galluogodd y fformat ar-lein i'r rhai a gymerodd ran ymgysylltu ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o 12 wythnos ar ffôn symudol, gliniadur, cyfrifiadur neu gyfrifiadur llechen a oedd ar gael iddynt.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori yn unol â safonau hygyrchedd Llywodraeth Cymru.

Yn y strategaeth ymgysylltu, diffiniwyd gwefrwyr fel y canlynol:

- Chwim/Eithriadol o Chwim: 43-350 cilowat.
- Gwefru Cyflym: 7-22 cilowat.
- Gwefru araf: <7 cilowat.

### 2.2 Hwyluso Adborth

#### 2.2.1 Arolwg

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r rhai a gymerodd ran gwblhau ffurflen holiadur er mwyn darparu adborth strwythuredig ar y strategaeth ddrafft. Darparodd yr holiadur yr wybodaeth ganlynol:

- Adborth ar weledigaeth y strategaeth, canlyniadau allweddol a'r galw am wefru.
- Adborth ar y fframwaith ar gyfer gweithredu gyda'r ddogfen ymgynghori ac unrhyw rwystrau a ragwelwyd i'r ddarpariaeth.
- Dealltwriaeth o allu'r rhai a gymerodd ran i wefru gartref a milltiredd presennol yn ogystal â dewisiadau o ran lleoliadau gwefru.
- Gwybodaeth am sut i greu profiad gwefru teg a hygyrch.
- Dealltwriaeth y rhai a gymerodd ran o gyfleoedd i nodi gwerth y buddsoddiad.
- Safbwyntiau ar effeithiau'r strategaeth yn ymwneud â'r Gymraeg a phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Er mwyn gwneud yr holiadur mor hygyrch â phosibl i bawb, fe'i dyluniwyd yn unol â safonau hygyrchedd Llywodraeth Cymru.

### **2.2.2 Y Tu Allan i'r Arolwg**

Cynhaliwyd e-bost prosiect penodol gan Lywodraeth Cymru. Galluogodd y cyfeiriad e-bost 'EVCharging@gov.wales' i unigolion a sefydliadau â buddiant wneud sylwadau manwl pellach ar y strategaeth.

Cyfeirir at sylwadau a gafwyd drwy'r sianel hon yn y ddogfen hon fel ymatebion 'y tu allan i'r arolwg'.

## 3. Adborth

---

### 3.1 Trosolwg

Cadwyd amrywiaeth o adborth drwy'r ymatebion arolwg a'r tu allan i'r arolwg yn rhan o'r ymarfer ymgysylltu.

Derbyniwyd a dilyswyd cyfanswm o 335 o ymatebion gan unigolion a sefydliadau yn ystod y cyfnod ymgysylltu. Darperir y canlyniadau isod.

### 3.2 Cyfyngiadau

Gall arolwg ar-lein eithrio rhai is-grwpiau nad ydynt yn gallu ymateb ar-lein.

### 3.3 Methodoleg

#### 3.3.1 Ymatebion i'r Arolwg

##### Ymatebion meintiol

Roedd holiadur yr ymgynghoriad yn cynnwys ymatebion meintiol ac ansoddol. Lle ceir ymatebol meintiol eglur (ydy/nac ydy ac ati), aseswyd yr ymatebion ar sail rhifau i gynnig casgliadau yn erbyn y cwestiynau priodol.

##### Ymatebion ansoddol

Er mwyn dod i gasgliadau y gellir eu defnyddio, mae'r testun wedi ei adolygu a'i gategoreiddio yn erbyn cyfres gyffredin a bennwyd ymlaen llaw o 54 o is-themâu sy'n deillio o adolygiad cychwynnol o gynnwys yr ymgynghoriad. Mapiwyd y themâu hyn wedyn i'r pedair thema allweddol a nodir yn y strategaeth ddrafft, sef:

- Y ddarpariaeth wefru gyfan: cynyddu'r gwefru araf, cyflym a chwim sydd ar gael.
- Canlyniadau ansawdd: sicrhau gwefru sy'n darparu profiadau o ansawdd i ddefnyddwyr.
- Canlyniadau cynaliadwy: datblygu cynllunio traws-sector integredig ar gyfer ynni cynaliadwy a thrafnidiaeth i gynorthwyo datgarboneiddio.
- Buddion lleol: darparu seilwaith yn y lle iawn i ddefnyddwyr, busnesau a nodi cyfleoedd gwerth i bobl yng Nghymru.

Defnyddiwyd amlder yr is-themâu wedyn i hysbysu casgliadau o'r ymatebion ansoddol yn yr adroddiad.

#### 3.3.2 Ymatebion y Tu Allan i'r Arolwg

Pan yr oeddent ar gael, casglwyd a chyfunwyd ymatebion meintiol gyda'r ymatebion categori 1.

Mae'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion categori 2 wedi'u cynnwys yn Adran 3.5.



### 3.4 Ymatebion Meintiol ac Ansoddol


#### 3.4.1 Cwestiwn Un

*“Mae'r strategaeth hon yn amlinellu gweledigaeth ar gyfer gwefru cerbydau trydan yng Nghymru. Mae'n darparu fframwaith strategol ar gyfer sut y bydd seilwaith gwefru yn cael ei osod er mwyn hwyluso'r defnydd o gerbydau trydan, gan helpu Cymru i newid i sefyllfa sero-net, ar yr un pryd ag ymgorffori'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod cyfleusterau gwefru yn cael eu darparu yn deg. Hoffem glywed gennych er mwyn ffurfio'r system seilwaith gwefru y mae ei hangen ledled Cymru. Mae'n amlwg y bydd yr angen am seilwaith gwefru trydan yn cynyddu'n gyflym. Bydd y penderfyniadau a wnawn nawr yn ffurfio system ynni a thrafnidiaeth Cymru ar gyfer y dyfodol.*

*Gweledigaeth ar gyfer Gwefru yng Nghymru: Erbyn 2025, bydd pawb sy'n defnyddio ceir a faniau trydan yng Nghymru yn ffyddiog y gallant gael at seilwaith gwefru cerbydau trydan ar yr adeg ac yn y man lle y mae arnynt ei angen.*

*I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r weledigaeth?”*

Tabl 1: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 1



Mae mwyafrif y rhai a gymerodd ran a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r weledigaeth (gweler Tabl 1), ond byddai rhai yn hoffi ei gweld yn cael ei gweithredu yn gynharach.

Mae'r themâu allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn yn cynnwys Canlyniadau ansawdd a'r ddarpariaeth wefru gyfan.

Mynegodd y rhai a gymerodd ran bryder bod y seilwaith grid presennol yng Nghymru yn wael, sy'n effeithio ar y gwefrwyr sydd ar gael a'i dibynadwyedd. Tybiwyd bod diffyg gwefrwyr chwim ar hyd ffyrdd allweddol gan fod gwefru oddi cartref yn cael ei ystyried yn rhwystr. Dywedodd defnyddwyr presennol cerbydau trydan ei bod yn angenrheidiol iddynt gynllunio

eu teithiau yn ofalus gan nodi pa mor bell y gall y cerbyd trydan deithio ar un gwefriad a lle bydd y man gwefru nesaf wedi'i leoli.

Nododd y rhai a gymerodd ran nad oedd digon o sôn yn y strategaeth am integreiddio trafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys beicio a moddau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus fel ffordd o leihau traffig cyffredinol.

### 3.4.2 Cwestiwn Dau

*“Mae defnyddwyr cerbydau trydan yn gwefru trwy fannau gwefru a ddarperir gan weithredwyr sector preifat. Pa gamau y dylai'r sector cyhoeddus eu cymryd i sicrhau bod digon o wefrwyr yn cael eu darparu, yn y lleoliadau iawn, ledled Cymru i fodloni'r galw a ddisgrifir yn y strategaeth hon?”*

Y ddarpariaeth wefru gyfan yw'r thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Dywedodd y rhai a gymerodd ran yr hoffent weld y mathau canlynol o wefrwyr ym mha leoliadau<sup>1</sup>:

- Gwefrwyr cyflym at ddefnydd domestig.
- Gwefrwyr cyflym ar gyfer lleoedd parcio cyhoeddus (Cynghorau Lleol, ysbytai, archfarchnadoedd, gwestai, ac ati).
- Cymysgedd o wefrwyr cyflym a chwim mewn gorsafoedd petrol.
- Gwefrwyr cyflym mewn safleoedd atyniadau ymwelwyr.

Hefyd, roedd ffafriaeth i'r sector cyhoeddus weithio gyda'r sector preifat tuag at weledigaeth gydlynol i nodi bylchau yn y seilwaith a darparu lleoliadau ymarferol ar gyfer manau gwefru. Tynnwyd sylw at swyddogaeth cynllunio i gynorthwyo i annog busnesau a pherchnogion tir i osod manau gwefru.

Dywedodd y rhai a gymerodd ran bod dibynadwyedd gwefrwr yn bwysig i gynorthwyo hyder i yrwyr lleol a darpar dwristiaid wrth deithio o gwmpas Cymru. Mewn rhai achosion, bu'n rhaid i rai a gymerodd ran sy'n byw yng Nghymru deithio i Loegr i wefru eu cerbyd trydan wrth deithio i'r gogledd o Gymru oherwydd y diffyg gwefrwr. Hefyd, mae rhai a gymerodd ran wedi cyrraedd cyfleuster gwefru i ganfod nad yw'n gweithio neu nad yw'n cael ei ddefnyddio.

### 3.4.3 Cwestiwn Tri

*“Yn eich barn chi, beth allai rwystro darparu digon o fannau gwefru ledled Cymru i fodloni'r galw rhagfynedig am wefru yn ystod y deng mlynedd nesaf a ddisgrifir yn y strategaeth hon?”*

Y ddarpariaeth wefru gyfan a Chanlyniadau cynaliadwy yw'r themâu allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Y brif her y mae'r rhai a gymerodd ran yn ei rhagweld o ran cyflwyno manau gwefru digonol yw digon o gyllid ledled Cymru. Yn enwedig mewn ardaloedd gwledig o Gymru lle mae'r llif

---

<sup>1</sup> Gelid ystyried hyn yng nghyd-destun addysg ac ymwybyddiaeth sy'n newid yn gyflym (gweler cwestiwn 3) a'i adolygu yn barhaus.

traffig yn is neu lle ceir llai o ddefnyddwyr cerbydau trydan. Dywedodd y rhai a gymerodd ran bod cyllid yn hanfodol i greu seilwaith sy'n parhau.

Roedd rhai a gymerodd ran yn credu bod perygl bod pobl yn llai tebygol o ystyried prynu cerbyd trydan trwy ddiffyg ymwybyddiaeth ac addysg. Gallai diffyg addysg ac ymwybyddiaeth arwain at lai o alw am fannau gwefru. Mae'r rhai a gymerodd ran o'r farn y dylai'r seilwaith fod ar waith cyn y cynnydd i nifer y bobl sy'n defnyddio cerbydau trydan i annog nifer fwy o bobl i ymrwymo iddo.


Roedd rhwystr arall a amlygwyd gan y rhai a gymerodd rhan yn cynnwys caniatâd cynllunio, cydsyniadau perchnogion tir, ac amharodwydd y sector preifat i fuddsoddi mewn ardaloedd llai dymunol. Gwnaed yr awgrym i Lywodraeth Cymru ddarparu cymelliadau.

### 3.4.4 Cwestiwn Pedwar - Rhan A

*“Mae defnyddwyr cerbydau trydan yn gallu gwefru cerbydau ar gyflymderau gwahanol, fel y dangosir yn y graffig ar dudalen chwech y strategaeth, sydd wedi'i grynhoi yn y tabl isod. Mae'r dulliau gwefru a ddefnyddir yn dibynnu ar amgylchiadau'r defnyddwyr. Fel yr amlinellir yn y Strategaeth, disgwylir i bobl allu gwefru gartref ar gyflymder araf, ar yr amod bod modd parcio oddi ar y stryd. Fel arall, gallai pobl wefru mewn gweithleoedd, meysydd parcio, cyrchfannau (archfarchnadoedd, cyfleusterau hamdden, lleoliadau cyhoeddus, ac ati) ac ar y stryd, os yw'n ymarferol. Disgwylir i wefru Chwim/Eithriadol o Chwim gael ei ddefnyddio gan bobl sy'n teithio pellteroedd hir yn bennaf.*

*A ydych chi'n gallu parcio oddi ar y stryd?”*

Tabl 2: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4A




Mae Tabl 2 yn dangos bod gan 87.86% o'r rhai a gymerodd ran fynediad at barcio oddi ar y stryd a bod 12.14% nad oedd ganddynt.

### 3.4.5 Cwestiwn Pedwar – Rhan B

*“Rhowch amcangyfrif o’ch milltiroedd blynyddol”*

Tabl 3: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4B




Mae Tabl 3 yn awgrymu bod y cyfranogwr cyfartalog yn gyrru 10,000 i 20,000 o filltiroedd y flwyddyn. Mae 35.84% yn gyrru llai na 10,000 o filltiroedd y flwyddyn a dim ond 9.83% o'r rhai a gymerodd ran sy'n gyrru mwy nag 20,000 o filltiroedd y flwyddyn.

### 3.4.6 Cwestiwn Pedwar – Rhan C


*“Disgwylir i’r angen am wefru cyflym gynyddu’n gyflym yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl nad ydynt yn gallu gwefru gartref (er enghraifft, oherwydd diffyg lle parcio). Pe byddech chi’n defnyddio cerbyd trydan nawr neu yn y dyfodol, graddiwch y lleoliad lle y byddai’n well gennych ei wefru yn ôl trefn pwysigrwydd (1 i 6). Os ‘Nac ydw’ oedd eich ateb i C4a, bydd Gwefru gartref yn cael ei raddio yn 6.”*

Tabl 4: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4C – Gwefru Gartref




Nodir mai gwefru gartref yw'r lleoliad gwefru pwysicaf i'r rhai a gymerodd ran yn ôl Tabl 4. Fodd bynnag, dywedodd 24% o'r rhai a gymerodd ran mai dyma eu lleoliad lleiaf pwysig. Mae hyn hefyd yn cymryd i ystyriaeth y rhai a gymerodd ran nad oes ganddynt fynediad at barcio oddi ar y stryd ar hyn o bryd (gweler Tabl 2)

Tabl 5: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4C - Gwefru Cyflym mewn Archfarchnadoedd, Cyfleusterau Hamdden ac ati




Dim ond 14.2% o'r rhai a gymerodd ran sy'n nodi mai gwefru cyflym mewn mannau parcio cyhoeddus yw'r pwysicaf (gweler Tabl 5). Fodd bynnag, ceir llawer o atebion ystod canol sy'n awgrymu ei fod yn gymharol bwysig i lawer o bobl.

Tabl 6: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4C – Gwefru yn y gweithle




Mae Tabl 6 yn dangos bod 28.7% o'r rhai a gymerodd ran o'r farn mai gwefru yn y gweithle oedd yr ail o ran pwysigrwydd. Dywedodd 16.8% o'r rhai a gymerodd ran mai dyma oedd eu lleoliad lleiaf pwysig.

Tabl 7: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4C - Gwefru ar y Stryd



Mae'r canfyddiadau yn Nhabl 7 yn cynrychioli gwahanol ffafriaethau o ran pwysigrwydd gallu gwefru ar y stryd. Mae mwyafrif y rhai a gymerodd ran (21.4%) yn dweud mai gwefru ar y stryd yw'r lleoliad lleiaf pwysig, ond fe'i rhoddwyd yn y trydydd safle gan 20.2%.

Tabl 8: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4C - Gwefru mewn atyniadau i dwristiaid neu gyrchfannau




Nodir mai gwefrwyr wedi'u lleoli mewn atyniadau i dwristiaid neu gyrchfannau yw'r lleiaf pwysig yn ôl y rhai a gymerodd ran (gweler Tabl 8). Fodd bynnag, fe'i rhoddwyd yn y pedwerydd safle gan 18.7% o'r rhai a gymerodd ran ac yn yr ail safle o ran pwysigrwydd gan 18.1%.

### 3.4.7 Cwestiwn Pedwar – Rhan Ch

*“Mae lleoliadau gwefru chwim/eithriadol o chwim yn dibynnu ar y pŵer a'r tir sydd ar gael, ond, yn gyffredinol, ble fyddai'n well gennych chi weld y rhain yn cael eu lleoli? Dewiswch yr un a fyddai'n well gennych”.*

Tabl 9: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 4Ch



Mynegodd mwyafrif y rhai a gymerodd ran ffafriaeth tuag at weld mwy o wefrwyr wedi'u lleoli ar y rhwydwaith ffyrdd strategol neu mor agos â phosibl iddo. Dim ond 11.49% o'r rhai a gymerodd ran fynegodd ffafriaeth tuag at wefrwyr yn cael eu lleoli mewn amgylchedd trefol.

Y ddarpariaeth wefru gyfan yw'r thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'r canfyddiadau yn awgrymu yr hoffai'r rhai a gymerodd ran weld mwy o wefrwyr yn cael eu lleoli ar y rhwydwaith ffyrdd strategol, yn enwedig gwefrwywr chwim. Mae gwefrwywr chwim yn hanfodol ar gyfer teithiau maith. Awgrymodd rhai o'r bobl a gymerodd ran y byddai lleoli gwefrwywr i ffwrdd o'r rhwydwaith ffyrdd strategol yn atal defnyddwyr rhag teithio yno gan y byddent yn ychwanegu milltiroedd at eu teithiau.

Hefyd, mynegodd llawer o'r rhai a gymerodd ran ffafriaeth at weld gwefrwywr wedi'u lleoli mewn gorsafoedd petrol lle ceir amwynderau (e.e. siopau coffi a thoiledau). Byddai'r amwynderau yn cynnig lle i aros wrth wefru eu cerbydau trydan. Amlygwyd bod y gallu i wefru mewn lleoliad diogel lle ceir teledu cylch cyfyng a goleuadau yn bwysig.

Nododd rhai o'r bobl a gymerodd ran bod amgylcheddau trefol yn llawn ceir eisoes gan dynnu'r sylw at berygl y byddai lleoli gwefrwywr yn yr ardaloedd hyn yn annog llifau traffig uchel.



### 3.4.8 Cwestiwn Pedwar – Rhan E

*“A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau eraill ynglŷn â lleoliadau cyfleus ar gyfer seilwaith gwefru araf, cyflym neu chwim/eithriadol o chwim?”*

Mae'r ddarpariaeth wefru gyfan yn thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn gan gynnwys Buddion lleol.

Mae'r canfyddiadau yng Nghwestiwn 4C yn nodi pwysigrwydd cymharol gwefru gartref i'r rhai a gymerodd ran. Mae'r rhai a gymerodd ran yn dweud eu bod yn awyddus i ddefnyddio gwefrwyr cyflym ar gyfer gwefru gartref er gwaethaf y ffaith mai gwefru araf yw'r ffurf draddodiadol o wefru gartref. Awgrymodd llawer o'r rhai a gymerodd ran y dylai fod yn orfodol i bob tŷ newydd ddarparu gwefrwyr o'r fath. Gallai un ateb a gynigiwyd ar gyfer ardaloedd preswyl presennol heb unrhyw fynediad at barcio oddi ar y stryd gynnwys cael o leiaf un cyfleuster gwefru cyhoeddus.

Awgrymodd llawer o'r rhai a gymerodd ran y dylid lleoli gwefrwyr cyflym ar draffyrdd ac mewn mannau parcio cyhoeddus. Mae mannau parcio cyhoeddus yn cynnwys archfarchnadoedd lle bydd defnyddwyr ceir trydan yn treulio cyfnod byr o amser yn unig, fel y nodir yng Nghwestiwn dau.

Nodwyd bod cael mynediad rhwydd at wefrwyr sy'n gweithio yn bwysig i'r rhai a gymerodd ran, er mwyn iddynt allu dibynnu ar y seilwaith. Mae'r rhai a gymerodd ran yn mynegi cefnogaeth i osod safonau sy'n cynnwys y gallu i ddefnyddio'r gwefrwyr bob awr o bob dydd, a nodwyd enghreifftiau lle mae'r gwefrwyr wedi eu lleoli mewn meysydd parcio wedi'u cloi.

### 3.4.9 Cwestiwn Pump

*“Mae'r strategaeth (yn adran 8) yn nodi 31 o ganlyniadau allweddol ar gyfer gwefru yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u casglu ynghyd i 4 thema. A ydych chi'n cytuno â chanlyniadau allweddol pob thema a amlygir yn Adran 8?”*


Roedd y rhai a gymerodd ran yn cytuno yn gyffredinol gyda'r pedair thema a nodwyd gan nodi bod ganddynt strategaeth eglur i wireddu'r weledigaeth gyffredinol.

Nododd y rhai a gymerodd ran bod Canlyniadau o ansawdd yn bwysig gan fod angen i wefru cerbydau trydan ddod yn hawdd ac yn ddibynadwy. Gwnaed sylwadau bod gwefru cerbydau trydan yn rhoi'r cyfle i weithredwyr lleol ddarparu'r gwasanaethau a fydd o fudd wedyn i'r economi leol. Nodwyd bod Canlyniadau cynaliadwy yn hanfodol i atebion cynaliadwy ac ystyriol o'r amgylchedd sy'n arwain at allyriadau is.


Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran o'r farn bod y ddarpariaeth wefru gyfan yn hanfodol i gyflwyno digon o wefrwyr i gynyddu'r gwefrwyr sydd ar gael. Cafwyd awgrym cryf gan lawer o'r rhai a gymerodd ran bod angen mwy o wefrwyr. Fodd bynnag, nododd y rhai a gymerodd ran bod buddion lleol yr un mor bwysig i ddefnyddwyr o ran lleoliad gwefrwyr. Nododd y rhai a gymerodd ran y dylai'r safonau ansawdd ystyried cydweddoldeb socedi/plygiau gwefru a pha un a fyddant yn safonol ac yn gweithio i bawb.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn cytuno'n gryf (49.1%) gyda'r thema Y ddarpariaeth wefru gyfan a dim ond 3% sy'n anghytuno (gweler Tabl 10).

Tabl 10: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 5 – Y ddarpariaeth wefru gyfan




Tabl 11: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 5 – Canlyniadau ansawdd




Mae 45% o'r rhai a gymerodd ran yn cytuno'n gryf ac mae 40.2% yn cytuno â'r thema Canlyniadau Ansawdd (gweler Tabl 11). Mae 1.8% yn anghytuno â'r thema.

Tabl 12: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 5 – Canlyniadau cynaliadwy



Mae Tabl 12 yn dangos bod 53.8% o'r rhai a gymerodd ran yn cytuno'n gryf gyda'r thema Canlyniadau Cynaliadwy, dim ond 1.8% sy'n anghytuno ac mae 8.3% nad ydynt yn cytuno nac yn anghytuno.

Tabl 13: Canlyniadau Arolwg Cwestiwn 5 – Buddion Lleol



Canlyniadau o ansawdd ac yna Y ddarpariaeth wefru gyfan a Buddion Lleol yw'r themâu allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mynegodd y rhai a gymerodd ran bryder bod llawer o fannau gwefru angen ap ffôn symudol ar hyn o bryd er mwyn gallu talu am y gwasanaeth. Yn aml, yn yr ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru, efallai na fydd unrhyw signal ar gael, sy'n gwneud y dull talu hwn yn anodd ac weithiau yn amhosibl. Nodwyd y gallu i dalu gan ddefnyddio taliad digyffwrdd fel blaenoriaeth i'r rhai a gymerodd ran, gan ddefnyddio strwythur prisio cyson a rhesymol.

Tynnodd y rhai a gymerodd ran sylw at yr angen i sicrhau bod lleoliadau'r manau gwefru yn hygyrch i bawb, gan gynnwys y rhai ag anabledd neu'r henoed. Mae angen addasiadau fel gostwng ymyl y palmant i ddefnyddwyr cadair olwyn. Hefyd, nodwyd bod lleoliad gwefrwyr yn agos at amwynderau i gynnig lloches, bwyd, a thoiledau i ddefnyddwyr yn bwysig. Yn arbennig, soniwyd am ddarparu lle diogel i deuluoedd aros wrth wefru eu cerbydau trydan.

Roedd cynyddu nifer y gwefrwyr sydd wedi'u cynnal a'u cadw yn dda sydd ar gael, sicrhau dibynadwyedd a chynorthwyo defnyddwyr ag anawsterau symud gyda seilwaith yn awgrymiadau allweddol. Nododd y rhai a gymerodd ran yr angen am arwyddion priodol i nodi bod lleoedd gwefru ar gyfer cerbydau trydan a bod yn rhaid eu gadael ar ôl gorffen gwefru. Bydd hyn yn caniatáu yn well i ddefnyddwyr eraill wefru eu cerbydau trydan.

### **3.4.10 Cwestiwn Saith**

*“Sut ydych chi'n meddwl y gallai Cymru fanteisio ar werth buddsoddi mewn gwefru cerbydau trydan?”*

Mae'r themâu allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn yn cynnwys Y ddarpariaeth wefru gyfan, Canlyniadau ansawdd a Chanlyniadau cynaliadwy.

Mae'r rhai a gymerodd ran yn nodi y bydd Cymru yn darparu seilwaith gwefru da a dibynadwy yn annog twristiaeth ac yn rhoi hyder. Bydd lleoli manau gwefru gyda ffrydiau cynhyrchu refeniw eraill, fel bwytaï a siopau manwerthu yn helpu i sicrhau'r budd. Mae rhai o'r bobl a gymerodd ran wedi nodi y byddant yn defnyddio eu cerbyd nad yw'n drydan wrth ymweld â Chymru gan na allant sicrhau y byddant yn gallu gwefru eu cerbyd trydan yng Nghymru. Nododd y rhai a gymerodd ran bod twristiaeth yn cynorthwyo'r economi leol gan gynnwys creu swyddi i bobl yng Nghymru yn y diwydiant seilwaith cerbydau trydan. Bydd hyn yn ei dro yn uwchsgilio peirianwyr yng Nghymru gan arwain at brosiectau a chyfleoedd technoleg eraill.

Pwysleisiwyd pwynt gwerth buddsoddi arall o ran mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd gan sicrhau ansawdd aer da a gwella llygredd sŵn yn arwain at fanteision iechyd. Gallai annog y defnydd o ynni gwyrdd helpu i wella enw da Cymru hefyd, a helpu twristiaeth trwy hynny.

### **3.4.11 Cwestiwn Wyth – Rhan A**

*“Bydd ein gwaith a'n cynlluniau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol yn cael eu llywio'n sylweddol gan y galw rhagfynedig am fannau gwefru cerbydau trydan a amlinellir yn y strategaeth hon (h.y. cynyddu nifer y gwefrwyr cyflym i rhwng 30,000 a*

*50,000, a chynyddu nifer y gwefrwyr chwim i hyd at 3,500, yn ystod y deng mlynedd nesaf). A ydych chi'n cytuno â'r ffigurau hyn?"*

Buddion lleol a'r ddarpariaeth wefru gyfan yw'r themâu allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'r rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn cytuno â'r ffigurau, ond mynegwyd rhai pryderon ynghylch yr amserlenni a pha un a fyddai pum mlynedd yn fwy addas os bydd y galw am gerbydau trydan yn fwy na'r hyn a ragwelir. Mynegodd y rhai a gymerodd ran bryderon na fyddai'r rhwydwaith trydan yn gallu ymdopi â galw cynyddol.

Amlygwyd pryderon ynghylch y rhagfynegiad o wefrwyr chwim, sy'n awgrymu bod y rhagfynegiad hwn o bosibl yn rhy isel. Nid oedd y rhai a gymerodd ran o'r farn bod gwefrwyr cyflym mor gyfleus â gwefrwyr chwim a'u bod yn fwy addas ar gyfer manau lle bydd defnyddwyr yn treulio cyfnod sylweddol o amser.

Gwnaed yr awgrym y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer cynyddu nifer y gwefrwyr cyflym mewn manau lle bwriedir i wefru chwim ddarparu dewis wrth gefn os bydd galw yn fwy na nifer y gwefrwyr chwim sydd ar gael. Nodwyd hefyd y bydd nifer y gwefrwyr cartref sy'n cael eu gosod yn arwain at lai o angen am wefrwyr cyflym.

Dywedodd rhai a gymerodd ran bod cael y nifer briodol o wefrwyr mewn lleoliadau cyfleus a hygyrch yr un mor bwysig â'r cynnydd i nifer y gwefrwyr.

### **3.4.12 Cwestiwn Wyth – Rhan B**

*"A oes gennych chi unrhyw dystiolaeth, neu a ydych chi'n gwybod am unrhyw dystiolaeth a fyddai'n rhagfynegi galw gwahanol?"*

Y ddarpariaeth wefru gyfan yw'r thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'r rhai a gymerodd ran wedi awgrymu adolygu nifer y cerbydau trydan a werthwyd dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf fel dangosydd a hefyd perchnogaeth bresennol o gerbydau trydan.

Awgrymwyd y byddai adolygu strategaethau Tesla a gweithgynhyrchwyr cerbydau trydan eraill ar gyfer dyfodol cerbydau trydan o gymorth.

Cafodd seilwaith gwefru cerbydau trydan yr Alban ei ganmol gan rai o'r rhai a gymerodd ran fel nod i weithio tuag ato yng Nghymru.

Cyfeiriwyd at y gwefannau canlynol fel rhai sy'n cynnig rhagor o wybodaeth:

- BBC.
- Transport Environment.
- The Driven.

### **3.4.13 Cwestiwn Naw**

*"Unrhyw sylwadau ychwanegol?"*

Y ddarpariaeth wefru gyfan yw'r thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'r canfyddiadau yn awgrymu yr hoffai'r rhai a gymerodd ran weld cymhellion i annog pobl i brynu ceir trydan. Mae'r cymhellion a awgrymwyd yn cynnwys y gallu i ddefnyddio lonydd bysiau a gostyngiad i'r dreth gyngor wrth osod cyfleuster gwefru gartref.

Dywedodd llawer o'r rhai a gymerodd ran y byddent yn ffafrio mwy o ddwysedd o ran nifer y gwefrwyr mewn maes parcio yn hytrach na dau neu dri mewn llawer o feysydd parcio. Byddai'r dull hwn yn cynyddu nifer y mannau gwefru sydd ar gael a'u dibynadwyedd.

Ystyrir mai gwefru oddi ar y stryd yw un o'r rhwystrau mwyaf ar hyn o bryd ac mae'r rhai a gymerodd ran wedi awgrymu cynnydd i wefru polyn lamp, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn gallu gwefru gartref.

### **3.4.14 Cwestiwn A**

*“Mae dyletswydd arnom i ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi o ran y Gymraeg, o dan ofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r strategaeth yn ei chael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.*

*Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?”*

Buddion lleol yw'r thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'r rhai a gymerodd ran wedi awgrymu y dylid defnyddio arwyddion dwyieithog ar fannau gwefru, megis cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio a sut i dalu, ond hefyd arwyddion sy'n cyfeirio at leoliadau mannau gwefru. Tynnodd y rhai a gymerodd ran sylw at yr angen i weithredwr Cymraeg a Saesneg fod ar gael bob awr o bob dydd i gynorthwyo cwsmeriaid os ceir unrhyw broblemau wrth wefru'r cerbyd trydan. Nid yw'r rhai a gymerodd ran yn gweld sut y gallai fod unrhyw effeithiau negyddol pe bai'r argymhelliad hwn yn cael ei roi ar waith.

### **3.4.15 Cwestiwn B**

*“Eglurwch hefyd sut y gellid ffurfio neu newid y strategaeth i gael effaith gadarnhaol neu i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg, a dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.”*

Buddion lleol yw'r thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Mae'r canfyddiadau ar gyfer y cwestiwn hwn yn atseinio'r canlyniadau o Gwestiwn A o ran cael dewisiadau Cymraeg a Saesneg. Cafwyd awgrym i gael y Gymraeg ar frig arwyddion a'r Saesneg oddi tani. Fodd bynnag, codwyd rhai pryderon ynghylch yr anawsterau o ran cael gafael ar ieithoedd wrth dalu. Gallai anawsterau o ran mynediad fod yn anodd i dwristiaid yn arbennig. Felly, trwy gynnig dewisiadau dwyieithog, mynegwyd y farn bod angen iddynt fod yn hygyrch ac yn hawdd eu defnyddio.

### **3.4.16 Cwestiwn C**

*“Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch hwn i hysbysu amdanynt.”*

Y ddarpariaeth wefru gyfan yw'r thema allweddol ar gyfer y cwestiwn hwn.

Nododd y rhai a gymerodd ran mai un o'r rhwystrau presennol i sicrhau bod gwefrwyr ar gael yw cerbydau nad ydynt yn rhai trydanol yn parcio mewn mannau gwefru neu gerbydau trydan yn aros mewn lleoedd ar ôl gorffen gwefru. Awgrymwyd y byddai cyflwyno cosbau ariannol yn helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Cyfeiriodd y rhai a gymerodd ran at gysylltu lleoliadau gwefru â chynhyrchu pŵer adnewyddadwy megis ynni'r gwynt neu hydrogen. Nodwyd y bydd defnyddio ynni adnewyddadwy yn cynorthwyo'r uchelgais i sicrhau sero-net erbyn 2050 a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru yn rhan o'r argyfwng hinsawdd.

### **3.5 Ymatebion y Tu Allan i'r Arolwg**

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion y tu allan i'r arolwg trwy e-bost. Roedd y themâu allweddol yn cynnwys:

- Ceir amheuan cyffredinol ymhlith sefydliadau mwy o ran yr heriau cyflawni a diffyg hyder mewn bodloni'r targedau.
- Rheoliadau'r Llywodraeth.
- Cefnogaeth i eithrio cerbydau hybrid o'r strategaeth.
- Prinder arbenigedd sgiliau a gallu'r marchnadoedd lleol a chenedlaethol i ymateb i'r anghenion.
- Y defnydd o leoliad gwefrwyr i ysgogi economïau lleol.
- Dynamig cefn gwlad/dinas yn effeithio ar gapasiti gwefru (gwefrwyr pŵer is mewn dinasoedd a gwefrwyr pŵer uwch mewn ardaloedd gwledig), cyllid a modelau talu a dwysedd gofodol.
- Croes-gymorthdaliadau neu fodolau talu i gymryd elw uchel neu isel gwefrwyr i ystyriaeth – wedi eu gwrthbwyso gan leoliad. Pryder ynghylch gwerth cyfleuster gwefru mewn man anghysbell sy'n cael ei ddefnyddio unwaith yr wythnos o'i gymharu â chyfleuster gwefru yng nghanol dinas a ddefnyddir bob dydd – tybir fod gwerth uchel mewn lleoliad anghysbell e.e. hygyrchedd gwledig.
- "Yn gallu cael ei ddefnyddio gan bawb", gan ganolbwyntio yn arbennig ar ddefnyddwyr anabl ac oeddrannus.
- Mae cerbydau trydan yn rhan o strategaeth ehangach, yn enwedig o ran cynllunio a theithio integredig.
- Defnyddio gwersi a ddysgwyd o gyflwyno band eang mewn ardaloedd gwledig i'r ddarpariaeth o wefrwyr a'r berthynas â'r sector preifat.
- Perthynas rhwng twristiaeth, defnydd o gerbydau trydan a natur dymhorol.
- Effaith gwefru cyflym ar oes batri'r car a phroffil risg diogelwch posibl.
- Pryder ynghylch rhagweladwyedd ac ystod.
- Gwrthdaro rhwng annog mynychder cerbydau trydan a theithio amlfodd.
- Materion mwy cymhleth fel atebolrwydd am ddifrod i fatris ceir (wedi'u lliniaru o bosibl gan gynhyrchwyr cerbydau trydan) a chydysyniadau landlordiaid.

## 4. Crynodeb

### 4.1 Cyfleoedd Allweddol

Cafwyd 335 o ymatebion i holiadur ymgynghori Llywodraeth Cymru yn arwain at amrywiaeth o themâu. Cyflwynir y themâu a'r cyfleoedd mwyaf cyffredin a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r arolwg a'r ymatebion y tu allan i'r arolwg yn Nhabl 14 a Thabl 15, yn eu trefn.

Tabl 14: Themâu a chyfleoedd mwyaf cyffredin a fynegwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg

Thema	Cyfle
Canlyniadau ansawdd	Y gallu i dalu yn ddigyffwrdd gan ddefnyddio strwythur prisio safonol.
Buddion lleol	Mannau gwefru trydan i fod yn safonol ar gyfer pob datblygiad tai newydd.
Canlyniadau cynaliadwy	Integreiddio trafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys beicio a moddau trafndiaeth gyhoeddus eraill fel ffordd o leihau cyfanswm y traffig.
Y ddarpariaeth wefru gyfan	Bod â'r hyder i deithio o gwmpas Cymru gan sicrhau bod manau gwefru digonol a'r dibynadwyedd y byddant yn gweithio.

Tabl 15: Themâu a chyfleoedd mwyaf cyffredin a fynegwyd gan y rhai a gymerodd ran y tu allan i'r arolwg

Thema	Cyfle
Canlyniadau cynaliadwy	Mae cerbydau trydan yn rhan o strategaeth ehangach, yn enwedig o ran cynllunio a theithio integredig.
Buddion lleol	Defnyddio lleoliadau gwefrwyr i ysgogi economïau lleol.
Y ddarpariaeth wefru gyfan	Dim gwahaniaethu ar sail cefndir economaidd-gymdeithasol.
Canlyniadau ansawdd	Sicrhau bod manau yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb gan gynnwys pobl anabl ac oedrannus.



## 4.2 Materion Allweddol

Dyma'r materion neu'r pryderon mwyaf cyffredin a fynegwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg:

- Perygl y bydd galw am gerbydau trydan yn fwy na'r cynnydd a ragwelir i leoliadau mannau gwefru.
- Mynediad at yr iaith o ddewis wrth dalu am wefru.
- Angen mwy o ymwybyddiaeth ac addysg o ran cerbydau trydan er gwybodaeth ac i annog pobl i ddefnyddio cerbydau trydan.
- Perygl y gallai amgylcheddau trefol ddod yn fwy llawn o geir a thraffig os caiff mannau gwefru eu lleoli yno.
- Amharodrwydd yn y sector preifat i fuddsoddi mewn ardaloedd sy'n cynnig llai o elw, gan greu anghydraddoldeb gwledig.
- Mynegodd y rhai a gymerodd ran ofnau na fyddai'r rhwydwaith trydan yn gallu ymdopi.

Dyma'r materion neu'r pryderon mwyaf cyffredin a fynegwyd gan y rhai a gymerodd ran y tu allan i'r arolwg:

- Effaith gwefru cyflym ar oes batri'r car a phroffil risg diogelwch posibl.
- Gwersi a ddysgwyd o gyflwyno band eang mewn ardaloedd gwledig i'r ddarpariaeth o wefrwyr a'r berthynas â'r sector preifat.
- Perthynas rhwng twristiaeth, defnydd o gerbydau trydan a natur dymhorol.
- Gwrthdaro tybiedig rhwng annog mynychder cerbydau trydan ar y ffyrdd a theithio amlfodd.
- Materion darparu mwy cymhleth fel atebolrwydd am ddifrod i fatris ceir a chydsyniadau landlordiaid.
- Ceir amheuan cyffredinol ymhlith sefydliadau mwy o ran yr heriau cyflawni a diffyg hyder mewn gallu bodloni'r targedau.
- Rheoliadau'r Llywodraeth.
- Cefnogaeth i eithrio cerbydau hybrid o'r strategaeth.
- Prinder arbenigedd sgiliau a gallu'r marchnadoedd lleol a chenedlaethol i ymateb i'r anghenion.

## 5. Y camau nesaf

---

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r adborth a gynhowyd yn yr adroddiad ymgynghori hwn i'w gynnwys yn y Strategaeth Gwefru Cerbydau Trydan derfynol ac i lywio'r cynlluniau gweithredu parhaus.